Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cylchlythyr Tiwtoriaid

**Hydref 2023**



# Gair gan Helen

## Croeso!

Dymuniadau gorau i chi gyd ar ddechrau tymor newydd o ddysgu.  Bydd yn gyfnod prysur i bawb dw i'n siŵr, a gwych gweld bod nifer dda o ddysgwyr yn ymuno â ni o'r newydd eleni, a llawer wedi dewis parhau â'u taith i ddysgu'r iaith.

Cyn sôn am y cyfnod sydd i ddod, alla i ddim peidio â chrybwyll yr Eisteddfod a llwyddiant Maes D ym Moduan.  Roedd y pentref a'r ddarpariaeth yn wirioneddol wych, a diolch o galon i dîm Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin am eu gwaith diflino yn cydlynu'r cyfan.

Diolch i'r rhai hynny ohonoch ddaeth i gynhadledd Academi yn Wrecsam. Gobeithio y cawsoch fudd o'r sesiynau a chofiwch bod croeso i chi gysylltu â mi gydag unrhyw adborth.

Yn yr un modd, gobeithio bod y sesiynau hyfforddi Sylfaen wyneb yn wyneb gafodd eu cynnal yn ddiweddar wedi bod o ddefnydd i chi.  Dw i'n edrych ymlaen at gynnal y sesiwn olaf yng Nghaerfyrddin ddydd Gwener, 27 Hydref. Mae'n bosib cofrestru ar gyfer y sesiwn yma ar Academi.

Ro'n i mor falch pan lenwodd Cwrs Nant Gwrtheyrn o fewn diwrnod pan agorwyd y cofrestru fis diwethaf.  Gobeithio bydd y cwrs yn llwyddiant ysgubol, ac y bydd Cwrs Cymraeg i'r Teulu, Llangrannog yr un mor boblogaidd.  16-18 Chwefror 2024 ydy dyddiad y cwrs, a byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hyrwyddo hwnnw maes o law.


'Dyn ni'n edrych ymlaen at glywed rhai o'n dysgwyr ar donfeddi Radio Cymru rhwng 15-21 Hydref fel rhan o'r Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg flynyddol. Mae rhagor o fanylion ar gael isod, felly cofiwch annog eich dysgwyr i diwnio mewn!

Pob dymuniad da i chi gyda gweddill y tymor.

Diolch yn fawr,

**Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

# Dysgu Cymraeg yn Nantes



Dymuniadau gorau i'r tiwtor Elwyn Hughes, fydd yn teithio i Nantes, Ffrainc fis yma er mwyn cynnal gwersi Cymraeg gyda thrigolion y ddinas, fel rhan o gynllun ar y cyd rhwng y Ganolfan a Llywodraeth Cymru. Yn 'Maison de l'Europe', sef canolfan Ewropeaidd yn y ddinas, bydd Elwyn yn cyflwyno hanes a diwylliant Cymru yn y gwersi, yn ogystal ag ychydig o Gymraeg. Bydd ymweliad Elwyn, sydd wedi ei gefnogi gan dîm Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cyd-fynd â nifer o ddigwyddiadau eraill yn Nantes sy'n hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg, fel rhan o gynllun 'Cymru yn Ffrainc' Llywodraeth Cymru. Darllenwch yr hanes yn llawn yma.






# Sesiwn sgwrsio Duolingo

Oes gennych chi ddysgwyr sy'n defnyddio Duolingo i ymarfer eu Cymraeg y tu hwnt i'r dosbarth? Ar 10 Hydref am 7yh bydd sesiwn rithiol yn cael ei chynnal er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio. A wnewch chi rannu'r cyfle gyda'ch dysgwyr os gwelwch yn dda? Mae'r sesiwn yn addas i ddysgwyr ar bob lefel, ac mae'r manylion cofrestru ar gael yma.




# Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru

Rhwng 15-21 Hydref, bydd lleisiau dysgwyr i'w clywed ar BBC Radio Cymru fel rhan o'r Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg. Mae rhaglenni'r orsaf, gan gynnwys rhai Aled Hughes, Shân Cothi a Caryl Parry Jones wedi gwahodd dysgwyr a thiwtoriaid i sgwrsio am eu profiadau o ddysgu Cymraeg, felly cofiwch wrando. Yn ychwanegol, bydd cyfle i ddysgwyr Canolradd, Uwch a Gloywi holi rhai o brif gyflwynwyr BBC Radio Cymru mewn sesiwn rithiol arbennig nos Lun 16 Hydref am 7yh. Yn eu plith bydd Bethan Rhys Roberts, Iwan Griffiths a Mirain Iwerydd. Mae modd cofrestru ar gyfer y sesiwn rithiol yma.

# Ap Lirica

'Dyn ni wedi bod yn gweithio gyda Lirica, sef ap dysgu ieithoedd trwy wrando ar gerddoriaeth boblogaidd, i greu fersiwn Cymraeg. Wrth i ddysgwyr wrando ar gân Gymraeg, bydd yr ap yn cynnig ymarferion darllen a deall, geirfa a gramadeg sy'n seiliedig ar y gân honno. Dewiswyd 30 o ganeuon Cymraeg ar gyfer yr ap, ac mae tîm o'r Ganolfan wedi bod wrthi'n cynllunio gwersi ac ymarferion, mewn cydweithrediad â chwmni PYST. Bydd yr adnodd newydd yma yn cael ei gyflwyno i ddysgwyr yn ystod 2023-2024.



# Cwrs Cymraeg i’r Teulu Llangrannog

Y dyddiad sy wedi ei bennu ar gyfer y cwrs uchod ydy 16-18 Chwefror 2024. Yn ôl yr arfer, bydd cyfleoedd di-ri i’r rhieni a gofalwyr fwynhau dysgu Cymraeg ac adloniant yn cael ei ddarparu i’r plant gan staff y gwersyll. Mi wnaeth cwrs eleni ddenu mwy o gofrestriadau nag erioed o’r blaen, felly byddem yn gwerthfawrogi pe bai modd i chi ledaenu’r neges am gwrs 2024. Bydd poster a manylion cofrestru ar gael yn fuan.

# Sesiynau hyfforddi

Academi
Datblygu sgiliau’r gweithlu
Dysgu Cymraeg

Cofiwch edrych ar Academi i weld pa sesiynau hyfforddi sydd ar y gweill.



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cylchlythyr Tiwtoriaid

**Gwanwyn 2024**



# Gair gan Helen

## Croeso!

Gobeithio bod y tymor newydd yn mynd yn dda a'r dosbarthiadau yn dechrau setlo. Mae adroddiadau bod nifer dda wedi cofrestru ar gyrsiau newydd lefel Mynediad. Dw i'n siŵr bod pawb yn mwynhau'r croeso cynnes yn y dosbarth, ac yn cael boddhad wrth ddysgu Cymraeg.

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill sydd o ddiddordeb i'n dysgwyr. Mae Gŵyl Ddarllen Amdani yn argoeli'n dda eleni, gyda nifer wedi cofrestru ar y clwb darllen a'r gweithdy gyda Anni Llŷn. Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hyrwyddo'r rhain ymhellach dros yr wythnosau nesaf.

Mae cyfle i'n dysgwyr gyflwyno darnau ysgrifenedig mewn cystadlaethau y tymor hwn. Bydd cystadlaethau dysgwyr Merched y Wawr yn cau ar 1 Mawrth, ac mae manylion llawn cystadlaethau dysgwyr yr Eisteddfod Genedlaethol wedi eu cynnwys isod.

Cofiwch hefyd am sesiwn Top up your Duolingo fydd yn cael ei gynnal yn rhithiol ar 20 Chwefror. Mae croeso i ddysgwyr o bob lefel ymuno â ni am sgwrs ar-lein, er mwyn ymarfer eu Cymraeg.

Mae 'na ddigon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg felly, ac wrth gwrs mae SaySomethinginWelsh (SSiW) yn adnodd ychwanegol. Fel y gwyddoch, mae pob un o'n dysgwyr prif ffrwd yn cael cynnig SSiW am ddim. Mae'r ddolen gofrestru a'r canllawiau ar gael isod. Ewch ati i atgoffa eich dysgwyr bod y cynnig hwn ar gael, os gwelwch yn dda.

- **SaySomethinginWelsh – Cofrestru**
- **SaySomethinginWelsh – Canllawiau**

Pob dymuniad da i chi gyda gweddill y tymor, a chofiwch bod croeso i chi gysylltu â fi unrhyw bryd os dych chi angen cymorth neu'n dymuno cael sgwrs.

Diolch yn fawr,

**Helen Prosser**
**Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

# Dweud eich Dweud

A wnewch chi ein cynorthwyo i ledaenu'r gair am holiadur Dweud eich Dweud os gwelwch yn dda?

Mae cyfle i'n dysgwyr ddweud eu barn am eu profiad o ddysgu Cymraeg drwy'r holiadur ar-lein. Fel y gwyddoch, pwrpas yr holiadur yw rhoi cyfle i ddysgwyr ddweud beth 'dyn ni'n ei wneud yn dda, a beth allwn ni ei wneud i wella'r ddarpariaeth.

Mae pedwar holiadur gwahanol ar gael, yn ddibynnol ar ddull dysgu y dysgwr, ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r fersiwn Gymraeg yn addas ar gyfer dysgwyr ar lefel Canolradd, Uwch neu Gloywi.


Bydd y 500 dysgwr cyntaf i lenwi'r holiadur yn cael cyfle i ennill tocyn llyfr gwerth £50! 'Dyn ni'n gobeithio derbyn cymaint o ymatebion â phosib cyn i'r holiadur gau ar 8 Mawrth:


**Dweud eich Dweud : Have your Say 2024 | Dysgu Cymraeg**



# Gŵyl Ddarllen Amdani


Bydd y digwyddiadau canlynol yn cael eu cynnal fel rhan o Ŵyl Ddarllen Amdani rhwng 4-8 Mawrth.  Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i annog eich dysgwyr i fynychu'r ddau ddigwyddiad:













## Clwb Darllen Cenedlaethol – 6 Mawrth am 7yh

Dyma gyfle gwych i'n dysgwyr fynychu clwb darllen.  Mae llyfrau wedi eu gosod i bob lefel, felly'r gobaith yw y bydd dysgwyr yn darllen y llyfrau cyn dod i gwrdd â'r awdur ar Zoom.

## Gweithdy gyda Anni Llŷn – 7 Mawrth am 7yh

Cyfle i ddysgwyr lefelau Canolradd, Uwch a Gloywi fynychu sesiwn ysgrifennu gyda Anni Llŷn.  Bydd cyfle i ganu cân ar ddiwedd y gweithdy.

Mae modd cofrestru i fynychu'r ddau ddigwyddiad ar y safle:

Gŵyl Ddarllen Amdani 2024 | Dysgu Cymraeg | Amdani Festival of Reading 2024 | Learn Welsh





# Cwrs Glan-llyn

'Dyn ni gyd yn edrych ymlaen at gwrs preswyl Llangrannog rhwng 16-18 Chwefror, ac wedi hynny byddwn ni'n mynd ati i hyrwyddo Cwrs Glan-llyn. Eleni, bydd hwnnw yn cael ei gynnal rhwng 3-5 Mai, a bydd yn addas i ddysgwyr lefelau Sylfaen, Canolradd, Uwch a Gloywi. Byddem yn gwerthfawrogi pe bai modd i chi ledaenu'r neges am gwrs 2024, a bydd poster a manylion cofrestru ar gael yn fuan.







# Hyfforddiant Rhanbarthol y Gwanwyn

Bwriad sesiynau'r tymor yma yw cyflwyno dau bwnc yn benodol, sef 'Defnyddio Cerddoriaeth wrth ddysgu Cymraeg' gyda Helen Morfydd, a 'Gwylia dy dafod' (gwefan newydd i gynorthwyo ag ynganu) gyda Dr Iwan Rees neu Dr Jonathan Morris, Prifysgol Caerdydd.

Diolch i bawb ddaeth i'r hyfforddiant cyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd ar 19 Ionawr. Mae'r sesiynau eraill wedi eu rhestru isod, ac mae croeso mawr i bawb. Gellir cofrestru ar gyfer pob cwrs ar Academi.

- **Dydd Llun, 19 Chwefror (9.30yb - 12yp)** - Camu, Coleg Cambria, Wrecsam.
- **Dydd Gwener, 23 Chwefror (1yp - 3.30yp)** - Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, Stryd y Deon, Bangor.
- **Dydd Gwener, 8 Mawrth (1yp - 4.30yp)** - Y Llwyfan, Caerfyrddin.

# Cystadlu yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf




Mae cystadlaethau'r Eisteddfod yn cynnig cyfle gwych i ddysgwyr ymarfer a defnyddio eu Cymraeg. Felly, beth am annog eich dysgwyr i gystadlu eleni? Maen nhw'n gallu cymryd rhan mewn cystadlaethau ysgrifennu, llwyfan neu roi cynnig ar gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn wrth gwrs. Mae rhestr lawn o'r cystadlaethau ar gael ar y ddolen isod, ac mae'r dyddiadau cau hollbwysig wedi eu nodi isod:



- Cystadlaethau Ysgrifennu – 1 Ebrill
- Cystadlaethau Llwyfan – 1 Mai
- Dysgwr y Flwyddyn – 1 Mai



[Eisteddfod - Maes D]



# Ap Lirica



Mae pob dysgwr 16-25 oed wedi cael cynnig tanysgrifiad ap Lirica am ddim.  Bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddysgwyr Mynediad ac wedyn bydd yr ap ar gael i'w brynu am bris gostyngol i bawb - £25. Mae'r ap yn defnyddio caneuon poblogaidd i helpu gyda'r broses o ddysgu iaith ac mae'r ap hefyd yn gyfle i ni hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg i'n dysgwyr.
Ar yr ap mae 30 o ganeuon Cymraeg, gan gynnwys Coffi Du (Gwibdaith Hen Frân), Gwalia (Gwilym) a Helo (Mari Mathias).  Mae'r ap yn addas i ddysgwyr ar bob lefel, felly gobeithio bydd eich dysgwyr yn ei weld fel adnodd defnyddiol i gefnogi'r dysgu.



# Sesiynau un i un


Mae Marc Morris, Swyddog Gweithredol Systemau Digidol y Ganolfan yn cynnig sesiynau un i un gyda thiwtoriaid eleni. Bwriad y sesiynau, sy'n cael eu cynnal ar-lein, yw eich diweddaru ar ddatblygiadau'r Safle, a cheisio trafod unrhyw faterion sy'n codi.
Er mwyn bwcio slot 30/45 munud o hyd gyda Marc, mae croeso i chi ddefnyddio 'Microsoft Bookings' sy'n dangos ar ba adegau mae Marc ar gael:

[Book time with Marc Morris: Safle Rhyngweithiol - Cyfle i gwrdd a thrafod / Interactive Site - Opportunity to meet and discuss]

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Haf
2024

# Cylchlythyr Tiwtoriaid



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

# Gair gan Helen

## Croeso!

Wrth i ni agosáu at yr haf, hoffwn ddiolch i bob un ohonoch am eich gwaith drwy'r flwyddyn.  Diolch am annog eich dysgwyr i ddal ati, ac i ymarfer eu Cymraeg trwy fynychu digwyddiadau'r Ganolfan, yn ogystal â'r ystod o weithgareddau dych chi'n eu cynnig iddynt yn lleol.

Dw i'n ymwybodol bod gan rai ohonoch ysgolion haf ar y gweill, fydd yn gyfle gwych i chi atgoffa eich dysgwyr i fanteisio ar y cynnig Cyw Cynnar cyn 31 Gorffennaf.  Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hyrwyddo'r cynnig yma i'n dysgwyr, er mwyn eu hannog i ddychwelyd i'r dosbarth fis Medi.

Byddem hefyd yn gwerthfawrogi eich cymorth gyda Chynllun Strategol drafft y Ganolfan.  Cyn i ni gyhoeddi fersiwn derfynol o'r cynllun dros yr haf, 'dyn ni'n gwahodd sylwadau ar y fersiwn ddrafft.  Mae modd gwneud hynny ar y safle cyn 10 Mehefin, felly ewch ati i rannu eich barn os gwelwch yn dda.

Fel y gwyddoch, mae'r Eisteddfod ar y gorwel, a'r paratoadau yn mynd yn dda.  'Dyn ni'n edrych ymlaen at weld rhai o'n dysgwyr yn cystadlu yn y cystadlaethau i ddysgwyr, heb anghofio uchafbwynt yr wythnos, Dysgwr y Flwyddyn.  Dymuniadau gorau i bawb sydd ynghlwm â'r Cwis Mawr ar hyn o bryd – edrychwn ymlaen at y rownd derfynol ym Maes D.

Dymuniadau gorau i chi gyd dros yr haf, gobeithio y cewch chi seibiant ar ôl y cyfnod prysur a aeth heibio.  Cofiwch ymweld â Maes D os byddwch chi ar y maes, neu gobeithio y gwela i chi yng nghynhadledd Academi, sydd wedi ei threfnu yn Aberystwyth ar 6 Medi.

Diolch yn fawr,

**Helen Prosser**
**Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**



# Cynllun Strategol Drafft

Gyda mwy o bobl nag erioed yn dysgu Cymraeg – bron 17,000 – 'dyn ni wrthi'n cynllunio ar gyfer y cyfnod cyffrous nesaf, ac yn awyddus i gael eich barn ar ein Cynllun Strategol Drafft.  Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ydy 10 Mehefin - gallwch ddarllen y cynllun, a rhoi eich adborth, trwy ddilyn y ddolen nesaf.

[Cynllun Strategol: 2024–2026 | Dysgu Cymraeg]




# Ymgyrch yr haf a'r cynnig Cyw Cynnar

Dros yr haf, byddwn yn cynnal ymgyrch recriwtio er mwyn annog dysgwyr cyfredol i barhau i ddysgu fis Medi, a denu dysgwyr newydd.

Fis Mehefin a Gorffennaf, bydd y darparwyr yn rhoi cynnig Cyw Cynnar i ddysgwyr cyfredol, sef gostyngiad 50%, os yw'r dysgwyr yn cofrestru ar eu cwrs nesaf cyn diwedd Gorffennaf. Bydd rhaid iddynt ddefnyddio'r côd 'Cyw24' i dalu £50 yn unig.

Yn ystod Awst a Medi, bydd y pwyslais yn newid i ddenu dysgwyr newydd, gyda gostyngiad 50% ar gael iddyn nhw hefyd.

'Dyn ni angen eich cymorth i sicrhau bod dysgwyr cyfredol yn parhau i ddysgu gyda ni. Gofynnwn felly, i chi annog eich dysgwyr i fanteisio ar y cynnig Cyw Cynnar arbennig.

Mae mwy o wybodaeth ar gael trwy ddilyn y ddolen nesaf.
Cyrsiau mis Medi | Dysgu Cymraeg



# Penwythnos pobl ifanc Caerfyrddin

Am y tro cyntaf eleni, 'dyn ni wedi trefnu penwythnos preswyl i bobl ifanc rhwng 21 a 25 oed, a hynny yng Nghaerfyrddin rhwng 5-7 Gorffennaf. Bydd yn gyfle gwych iddynt gyfarfod dysgwyr a thiwtoriaid eraill, cymdeithasu a mwynhau Gŵyl Canol Dre Caerfyrddin. Os oes dysgwyr ifanc yn eich dosbarth, a wnewch chi sôn wrthynt am y cyfle os gwelwch yn dda? £50 ydy pris y cwrs, a bydd angen cofrestru ar y ddolen isod cyn 16 Mehefin.

Cwrs Penwythnos | Cyrsiau | Dysgu Cymraeg

Weekend Course | Courses | Learn Welsh














## Hwyl yr Haf

Mae cylchgrawn Hwyl yr Haf ar fin cael ei gyhoeddi – bydd y Swyddogion Marchnata yn anfon dolen atoch cyn bo hir. Bydd copïau papur hefyd ar gael, felly a wnewch chi annog eich dysgwyr i roi cynnig ar ddarllen y cylchgrawn dros yr haf? Unwaith yn rhagor eleni, 'dyn ni wedi cynnwys cystadleuaeth i ennill cwrs Dysgu Cymraeg am ddim. Y dasg ydy ysgrifennu am yr ardal leol, a byddwn yn dewis tri enillydd. Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hyrwyddo'r cylchgrawn, a'r gystadleuaeth cymaint â phosib.

## Sesiwn sgwrsio Duolingo

Mae ein sesiynau Duolingo misol yn parhau, a bydd y nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth 25 Mehefin am 7 o'r gloch. Mae'r sesiwn yn addas i ddysgwyr ar bob lefel a dyma'r ddolen gofrestru:

[Top up your Duolingo | Dysgu Cymraeg]

[Top up your Duolingo | Learn Welsh]



# Eisteddfod Genedlaethol

Os dych chi'n ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd rhwng 3-10 Awst, cofiwch alw draw i'n gweld ni ym Maes D. Eleni bydd tipi adloniant a chaffi dan ofal y Llywodraeth, a llawer mwy. Cawn wybod pwy fydd yn cipio gwobr Dysgwr y Flwyddyn ar y dydd Mercher, heb anghofio Tlws y Tiwtor ar y dydd Sadwrn cyntaf. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am union arlwy'r Ganolfan cyn bo hir. Yn y cyfamser, mae modd prynu tocyn a gweld beth arall fydd ymlaen gydol yr wythnos ar wefan yr Eisteddfod.


[Croeso | Eisteddfod]



# Tlws Coffa Aled Roberts

Llongyfarchiadau i Gwilym Roberts o Gaerdydd ar dderbyn Tlws Coffa Aled Roberts. Mae'r tlws yn cael ei gyflwyno er cof am Aled, y gwleidydd a chyn Gomisiynydd y Gymraeg, i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad gwirfoddol nodedig i'r sector Dysgu Cymraeg. Gallwch ddarllen hanes Gwilym trwy ddilyn y ddolen nesaf.

[Gwilym Roberts o Gaerdydd yn ennill Tlws Coffa Aled Roberts | Dysgu Cymraeg]



# BBC Cymru Fyw

Mae BBC Cymru Fyw wedi cyhoeddi adran benodol ar eu gwefan i ddysgwyr.  O dan y faner 'Dysgu Cymraeg' fe welwch erthyglau newyddion i ddysgwyr, sy'n cynnwys geirfa. Gall hwn fod yn adnodd gwerthfawr i'n dysgwyr, yn ogystal ag i chithau yn eich dosbarthiadau.  A wnewch chi felly rannu'r ddolen ganlynol gyda'ch dysgwyr os gwelwch yn dda.

[Dysgu Cymraeg / Learning Welsh (bbc.co.uk)]



Sgwrsio yn Gymraeg yn y




Crosio yn rhoi croeso yng Nghricieth



Am dro i Faldwyn

# Fideos Vyond ar gyfer deialogau Mynediad



Ym mhob uned yn y Cwrs Mynediad mae o leiaf ddwy ddeialog.  Felly, 'dyn ni wedi animeiddio un o'r deialogau ym mhob uned.  Gobeithio bydd hyn yn darparu amrywiaeth i'r gwersi ac yn apelio at y dysgwyr sy'n hoffi gweld llun a sain, gan gofio y bydd dysgwyr eraill yn ymdopi'n well â sain yn unig. Bydd y fersiynau sain yn unig yn dal i fod ar gael ar gyfer pob deialog.  Gellir cael hyd i'r fideos ar sianel YouTube y Ganolfan, a byddan nhw yn cael eu rhoi ar y safle maes o law.

Deialogau'r Gogledd

[Sgyrsiau Mynediad (Gogledd Cymru) - YouTube]

Deialogau'r De

[Sgyrsiau Mynediad (De Cymru) - YouTube]

Academi

Datblygu sgiliau'r gweithlu
Dysgu Cymraeg

# Cynhadledd Academi

Bydd y gynhadledd eleni yn cael ei chynnal ym Medrus, Campws Penglais, Aberystwyth ar 6 Medi.  'Dyn ni wedi trefnu cyflwyniadau ar eich cyfer gan Ceri Wyn Jones a Hugh Dellar, sef cyd-sylfaenydd cwmni hyfforddi Lexical Lab.  Bydd cyfleoedd i drafod pynciau megis Dysgu ar Gyrsiau Bloc, Asesu ar gyfer Dysgu mewn dosbarthiadau ar-lein, a meithrin sgiliau llafar mewn dosbarthiadau Mynediad a Sylfaen.  Mae'r holl wybodaeth a'r ddolen gofrestru ar Academi – bydd y cofrestru yn cau ar 16 Awst.